Polisi Gweinyddu Meddyginiaeth i ddysgwyr yn yr ysgol

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Rôl staff
3. Meddyginiaethau Rhagnodedig
4. Cyffuriau Rheoledig
5. Meddyginiaeth heb eu rhagnodi
6. Gweinyddu Meddyginiaeth yn yr ysgol
7. Gweinyddu Meddyginiaeth ar Deithiau ac Ymweliadau
8. Hunanreolaeth meddyginiaeth
9. Dysgwyr ag Anghenion Meddygol Tymor Hir neu Cymhleth
10. Mynediad i Weithdrefnau Brys yr Ysgol

Gweinyddu meddygyniaeth yn yr ysgol - gwybodaeth i rhieni/gwarcheidwaid

a. Cyflwyniad
b. Meddyginiaethau Rhagnodedig
c. Meddyginiaethau heb eu rhagnodi
ch. Gweinyddu Meddyginiaethau ar Deithiau ac Ymweliadau
d. Hunanreolaeth Meddygyniaeth
dd. Dysgwyr ag Anghenion Meddygol Tymor Hir neu Gymhleth

1. Cyflwyniad

Nod y polisi hwn yw cefnogi dysgwyr yn effeithiol pan fod ganddynt anghenion meddygol penodol, a thrwy hyn galluogi dysgwyr i fod yn bresennol yn yr ysgol yn rheolaidd.
Rhieni / Gwarcheidwaid sydd â'r prif gyfrifoldeb am iechyd eu plentyn a dylent ddarparu gwybodaeth i'r ysgol am gyflwr meddygol eu plentyn. Dylid cadw dysgwyr gartref os ydynt yn sâl iawn, ac mewn achos afiechydon heintus, dim ond pan nad ydynt yn heintus mwyach y maent yn dychwelyd.

Brig y Ddogfen

2. Rôl staff

Nid yw'n ofynnol i staff addysgu ddosbarthu meddyginiaeth i ddysgwyr. Rhaid i'r aelodau staff hynny sy'n gwirfoddoli i roi meddyginiaeth, neu sydd yn roi meddyginiaeth fel rhan o'u rôl yn yr ysgol, dderbyn hyfforddiant priodol.

Brig y Ddogfen

3. Meddyginiaethau Rhagnodedig

Dim ond pan fo hynny'n hanfodol y dylid dod â meddyginiaethau i'r ysgol; hynny yw lle byddai'n niweidiol i iechyd dysgwr pe na bai'r feddyginiaeth yn cael ei rhoi yn ystod y diwrnod ysgol.

Dim ond meddyginiaethau sydd wedi'u rhagnodi gan feddyg, deintydd, nyrs neu fferyllydd sydd â hawl i ragnodi y bydd yr ysgol yn eu derbyn. Dylid darparu meddyginiaeth bob amser yn y bocs/potel gwreiddiol fel y'u dosbarthir gan fferyllydd, a dylent gynnwys cyfarwyddiadau'r rhagnodydd ar gyfer rhoi a dosio. Bydd yr holl feddyginiaeth a ddarperir gan rieni / gwarcheidwaid yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo yn swyddfa'r ysgol, neu yn oergell yr ystafell feddygol os yw'n briodol. Cyfrifoldeb y rhiant / gwarcheidwad yw sicrhau bod y feddyginiaeth o fewn y dyddiad 'defnyddio erbyn' ac i ddisodli meddyginiaeth yn ôl yr angen.

Brig y Ddogfen

4. Cyffuriau Rheoledig

Ni fydd yr ysgol yn gofalu am feddyginiaethau rhagnodedig sydd wedi'u rhestru o dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau. Rhaid i ddysgwyr sydd angen cyffur rheoledig dderbyn un nad oes angen ei roi yn ystod y diwrnod ysgol.

Brig y Ddogfen

5. Meddyginiaeth heb eu rhagnodi

Ni ddylai staff byth roi meddyginiaeth heb bresgripsiwn (e.e. paracetamol) i ddysgwr, oni bai bod caniatâd ysgrifenedig penodol ymlaen llaw gan y rhieni. Rhaid i Rieni / Gwarcheidwaid lenwi'r ffurflen, 'Cytundeb Rhiant i Weinyddu Meddygyniaeth' (ar gael i'w lawrlwytho ar y wefan/o'r brif swyddfa) cyn i unrhyw feddyginiaeth gael ei rhoi gan staff yr ysgol. Yna dylai'r dysgwr gymryd y feddyginiaeth yn y brif swyddfa.

Rhaid cofnodi manylion y feddyginiaeth a roddir. Ni ddylid byth rhoi aspirin na meddyginiaethau sy'n cynnwys ibuprofen i ddysgwr dan 16 oed, oni bai ei fod wedi'i ragnodi gan feddyg.

Brig y Ddogfen

6. Gweinyddu Meddyginiaeth yn yr ysgol

Fel rheol, bydd meddyginiaeth yn cael ei gadw o dan reolaeth swyddfa'r ysgol / yn yr oergell feddygol, oni bai bod trefniadau eraill yn cael eu gwneud gyda'r rhiant / gwarcheidwad.Bydd y Ffurflen 'Cofnod o'r holl feddyginiaeth a roddir i ddysgwyr gan staff' yn cael ei gadw yn swyddfa'r ysgol. Rhaid cwblhau hyn bob tro y rhoddir meddyginiaeth i ddysgwr.

Os mae dysgwr yn gwrthod cymryd meddyginiaeth, dylid hysbysu'r rhiant / gwarcheidwad, os yw'n ymarferol, yr un diwrnod. Yna, efallai y bydd gofyn i'r rhiant / gwarcheidwad gasglu eu plentyn o'r ysgol.

Brig y Ddogfen

7. Gweinyddu Meddyginiaeth ar Deithiau ac Ymweliadau

Bydd Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn gwneud pob addasiad rhesymol i sicrhau y gall dysgwyr gymryd rhan lawn ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Pan fydd angen meddyginiaeth ar ddysgwr yn ystod gwibdaith neu ymweliad, cyfrifoldeb trefnydd y daith neu'r ymweliad yw i asesu ymarferoldeb gweinyddu'r feddyginiaeth honno sy'n ofynnol, ac i drafod hyn gydag aelod o'r Tim Arwain cyn mynd. Dylid cynnwys hyn yn yr Asesiad Risg.

Brig y Ddogfen

8. Hunanreolaeth meddyginiaeth

Mae dysgwyr yn cael eu cefnogi a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu meddyginiaeth eu hunain. Gall dysgwyr gario meddyginiaeth e.e. epipen, a chario a gweinyddu e.e. anadlydd lleddfu asthma, lle bo hynny'n briodol. Gofynnir i rieni/gwarcheidwaid dan yr amgylchiadau hyn i lenwi'r ffurflen 'Cais i'r dysgwr gario ei feddygyniaeth ei hun' (ar gael gan y swyddfa/ar y Wefan).

Brig y Ddogfen

9. Dysgwyr ag Anghenion Meddygol Tymor Hir neu Cymhleth
Pan fydd gan ddysgwr anghenion meddygol tymor hir neu cymhleth, bydd yr ysgol yn llunio cynllun gofal iechyd mewn ymgynghoriad â rhieni / gwarcheidwaid a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol.

Brig y Ddogfen

10. Mynediad i Weithdrefnau Brys yr Ysgol
Mewn achos o argyfwng, dilynir gweithdrefnau brys yr ysgol fel yr amlinellir yn y ddogfen Iechyd a Diogelwch.

Brig y Ddogfen

Gweinyddu meddygyniaeth yn yr ysgol - gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid

a) Cyflwyniad
Nod y polisi hwn yw cefnogi dysgwyr yn effeithiol pan fod ganddynt anghenion meddygol penodol, a galluogi dysgwyr i sicrhau presenoldeb rheolaidd.
Rhieni / Gwarcheidwaid sydd â'r prif gyfrifoldeb am iechyd eu plentyn a dylent ddarparu gwybodaeth i'r ysgol am gyflwr meddygol eu plentyn. Dylid cadw dysgwyr gartref os ydyn nhw'n sâl iawn, ac mewn achos afiechydon heintus dim ond dychwelyd pan nad ydyn nhw bellach yn heintus.

Brig y Ddogfen

b) Meddyginiaethau Rhagnodedig
Dim ond pan fo hynny'n hanfodol y dylid dod â meddyginiaethau i'r ysgol; hynny yw lle byddai'n niweidiol i iechyd dysgwr pe na bai'r feddyginiaeth yn cael ei rhoi yn ystod y diwrnod ysgol.

Dim ond meddyginiaethau sydd wedi'u rhagnodi gan feddyg, deintydd, nyrs neu fferyllydd sydd â hawl i ragnodi y bydd yr ysgol yn eu derbyn.

Dylid darparu meddyginiaeth bob amser yn y bocs/potel gwreiddiol fel y'u dosbarthir gan fferyllydd, a dylent gynnwys cyfarwyddiadau'r rhagnodydd ar gyfer rhoi a dosio. Bydd yr holl feddyginiaeth a ddarperir gan rieni / gwarcheidwaid yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo yn swyddfa'r ysgol neu yn oergell yr ystafell feddygol os yw'n briodol.

Cyfrifoldeb y rhiant / gwarcheidwad yw sicrhau bod y feddyginiaeth o fewn y dyddiad 'defnyddio erbyn' ac i ddisodli meddyginiaeth yn ôl yr angen.

Brig y Ddogfen

c) Meddyginiaethau heb eu rhagnodi
Nid yw staff yn gallu rhoi meddyginiaeth heb ei rhagnodi e.e. paracetamol, i ddysgwr, oni bai bod caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw penodol gan y rhieni/gwarcheidwaid. Rhaid i rieni / gwarcheidwaid lenwi'r ffurflen, 'Cytundeb rhieni i roi meddyginiaeth' (ar gael yn swyddfa'r ysgol neu'r wefan) cyn i unrhyw feddyginiaeth gael ei rhoi gan staff yr ysgol. Cofnodir manylion y feddyginiaeth a roddir.

Brig y Ddogfen

ch) Gweinyddu Meddyginiaethau ar Deithiau ac Ymweliadau
Bydd Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn gwneud pob addasiad rhesymol i sicrhau y gall dysgwyr gymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar y cwricwlwm. Pan fydd angen i ddysgwr gymryd meddyginiaeth yn ystod gwibdaith neu ymweliad,

cyfrifoldeb trefnydd y daith neu'r ymweliad fydd i asesu ymarferoldeb gweinyddu'r meddyginiaeth ac i drafod hyn gyda'r Tîm Arwain. Dylid cynnwys hyn yn yr Asesiad Risg.

Brig y Ddogfen

d) Hunanreolaeth Meddygyniaeth

Mae dysgwyr yn cael eu cefnogi a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu meddyginiaethau eu hunain. Gall dysgwyr gario meddyginiaeth e.e. epipen a chario a gweinyddu e.e. Anadlydd asthma, lle bo' hynny'n briodol. Dan yr amgylchiadau hyn, gofynnir i rieni lenwi'r ffurflen 'Cais i'r dysgwr gario ei feddyginiaeth ei hun '(ar gael o swyddfa neu wefan yr ysgol).

Brig y Ddogfen

dd) Dysgwyr ag Anghenion Meddygol Tymor Hir neu Gymhleth

Lle mae gan ddysgwr anghenion meddygol tymor hir neu cymhleth, bydd yr ysgol yn llunio cynllun gofal iechyd mewn ymgynghoriad â rhieni / gwarcheidwaid a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol.

Brig y Ddogfen

Hunanreolaeth - Cais rhieni i ddysgwr gario a gweinyddu meddyginiaeth
Self-regulation - Parental agreement for learners to carry and administer medicine
Ticiwch pob un sy'n berthnasol/Tick all that apply

Rwyf yn rhoi caniatad i fy mhlentyn gario a gweinyddu meddygyniaeth asthma/I give permission for my child to carry their own asthma medication and manage its use.	
Rwyf yn rhoi caniatad i fy mhlentyn gario'i epipen/I give permission for my child to carry their adrenaline auto injector for anaphylaxis (epi pen).	
Rwyf yn rhoi caniatad i fy mhlentyn gario a gweinyddu meddygyniaeth (nodwch beth a faint)/I give permission for my child to carry and administer their own medication (please note what a how much)	

Rhif ffôn y riant/gwarchediwad yn ystod y dydd /Daytime contact number of parent or adult contact	
Rhif ffôn mewn argyfwng (gwahanol i'r uchod)/ Alternative contact in the event of an emergency	
Rhif ffôn ac enw'r GP/Name and phone number of GP	

Llofnod/Signed_____

Dyddiad/Date_____

Gweinyddu Meddygyniaeth: Cytundeb Rhiant/Gwarcheidwad

Nodiadau i Rieni / Gwarcheidwaid

Nodyn 1: Ni fydd Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn rhoi meddyginiaeth i'ch plentyn oni bai eich bod yn llenwi ac yn llofnodi'r ffurflen hon.

Nodyn 2: Rhaid i bob meddyginiaeth fod yn y bocs/potel gwreiddiol fel y'i dosbarthir gan y fferyllfa, gydag enw'r person ifanc, ei chynnwys, y dos ac enw'r meddyg.

Nodyn 3: Gofynnir am y wybodaeth isod, yn gyfrinachol, i sicrhau bod yr ysgol yn gwbl ymwybodol o anghenion meddygol eich plentyn. Er na ellir gorfodi unrhyw aelod o staff i roi triniaeth feddygol i berson ifanc, y gobaith yw y bydd y gefnogaeth a roddir trwy gytundeb rhieni, cefnogaeth y Cyngor Sir trwy'r canllawiau hyn, a chymorth y Gwasanaeth Meddygol Ysgol yn eu hannog i weld hyn fel rhan o'r rôl fugeiliol. Pan fydd trefniadau o'r fath yn methu, cyfrifoldeb y rhieni yw gwneud trefniadau amgen priodol.

Adran 1: Meddygyniaeth ragnodedig

Enw'r dysgwr/Name of child	
Dyddiad/Date	
Dyddiad Geni/Date of Birth	
Dosbarth Cofrestru/Form Class	
Faint i roi/How much to give(dose to be given)	
Pryd i roi/When to be given	
Rheswm am y meddyginiaeth/Reason for medication	
Faint mae'r ysgol wedi derbyn/Quantity given to the school	

Rhif ffôn y riant/gwarchediwad yn ystod y dydd /Daytime contact number of parent or adult contact	
Rhif ffôn mewn argyfwng (gwahanol i'r uchod)/ Alternative contact in the event of an emergency	
Rhif ffôn ac enw'r GP/Name and phone number of GP	

Rwy'n cadarnhau bod meddyg wedi rhagnodi'r feddyginiaeth yma, ac fy mod yn rhoi fy nghaniatâd i'r ysgol roi'r feddyginiaeth i'm mab / merch yn ystod yr amser y mae ef / hi yn yr ysgol. Byddaf yn hysbysu'r ysgol ar unwaith, yn ysgrifenedig, os bydd unrhyw newid yn amlder neu faint o feddyginiaeth sy'n cael ei rhoi, neu os bydd yr angen am feddyginiaeth yn dod i ben. Cytunaf hefyd fy mod yn gyfrifol am gasglu unrhyw gyflenwadau nas defnyddiwyd neu sydd allan o ddyddiad, ac y byddaf yn cael gwared ar rhain. Mae'r wybodaeth uchod, hyd y gwn i, yn gywir ar adeg ysgrifennu.

Llofnod Rhiant/Gwarcheidwad_____

Dyddiad _____